# DEDDF IECHYD Y CYHOEDD (ISAFBRIS AM ALCOHOL) (CYMRU) 2018

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

#### *Adran 2: Troseddau*

14. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn drosedd i berson sy'n fanwerthwr alcohol gyflenwi alcohol, neu awdurdodi cyflenwi alcohol, o fangre gymhwysol yng Nghymru, i berson yng Nghymru, am bris gwerthu sy'n is na'r isafbris cymwys. Mae i'r termau "manwerthwr alcohol", "cyflenwi alcohol" a "mangre gymhwysol" ystyr benodol at y diben hwn fel y'i nodir yn adrannau 3 a 4.

15. Mae is-adran (2) yn darparu amddiffyniad i berson sydd wedi ei gyhuddo o'r drosedd i ddangos iddo gymryd camau rhesymol ac arfer diwydrwydd dyladwy i osgoi ei chyflawni. Os dibynnir ar yr amddiffyniad, mae is-adran (3) yn egluro ble y mae'r baich profi. Os codir tystiolaeth ddigonol, yr erlyniad sydd â'r baich o wrthbrofi'r amddiffyniad y tu hwnt i amheuaeth resymol.

16. Mae is-adran (4) yn darparu nad yw o bwys at ddibenion y drosedd a awdurdodir cyflenwi'r alcohol yng Nghymru neu yn rhywle arall. Felly, er enghraifft, os yw manwerthwr alcohol yn Lloegr pan yw'n awdurdodi cyflenwi alcohol yn is na'r isafbris cymwys o fangre gymhwysol yng Nghymru, ac i berson yng Nghymru, bydd y manwerthwr hwnnw (yn ddarostyngedig i unrhyw amddiffyniad sydd ar gael) yn cyflawni trosedd.

17. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio Atodlen 4 i Ddeddf Trwyddedu 2003 er mwyn ychwanegu trosedd a gyflawnir o dan y Ddeddf at y rhestr o "troseddau perthnasol" a geir yn yr Atodlen honno.

18. Arwyddocâd cynnwys trosedd yn y rhestr o "troseddau perthnasol" yw bod awdurdod trwyddedu yn gallu ystyried euogfarn am drosedd o'r fath, oni bai ei bod wedi ei disbyddu o dan delerau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, wrth iddo wneud penderfyniadau ynghylch rhoi neu ddirymu trwyddedau personol neu eu hatal dros dro o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Yng Nghymru, mae awdurdod trwyddedu yn gyngor sir neu'n gyngor bwrdeistref sirol.

19. Mae Deddf Trwyddedu 2003 hefyd yn gosod dyletswyddau penodol ar bersonau sydd wedi eu heuogfarnu o "trosedd berthnasol" i hysbysu'r awdurdod trwyddedu perthnasol am euogfarn o'r fath cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (ac mae'n darparu y bydd person yn cyflawni trosedd os yw'n methu heb esgus rhesymol â chydymffurfio â'r gofynion hyn). Yn yr un modd, mae Deddf Trwyddedu 2003 yn gosod rhwymedigaethau penodol ar y llys mewn perthynas â "troseddau perthnasol" ac yn darparu y caiff llys hefyd orchymyn i drwydded bersonol gael ei fforffedu neu ei hatal dros dro am gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis.